

Alun Rawson-Williams yn datgelu Camwedd yn Nant Peris yn 1880



David Forest Williams.

Hen, hen ewythr i mi oedd David Forest Williams, ac roeddwn yn gwybod amdano drwy'r mân sibrydion teuluol a ddaeth i'r wyneb pan gyrhaeddodd y newydd o America am farwolaeth ei wraig yn 1944 pan oeddwn yn fachgen ifanc. Pan ofynnais i fy mam beth oedd yr holl sibrydion yn eu cylch, y cwbl a gefais yn ateb oedd, 'Rwyf ti'n rhy ifanc i wybod am y petha' yna.'

Mae un peth yn sicr, fod yr amharodrwydd i ddatgelu'r gwir ffeithiau yn esgor ar chwillyrdedd ysol i durio mwy, er mwyn cael hyd i'r gwirionedd. Yn ystod y deng mlynedd yr wyf wedi ymddeol rwyf o'r diwedd wedi cael amser i gasglu cryn dipyn o hanes fy ewythr trwy fy ymchwiliadau yn Archifdy Sir Gaernarfon ac yn yr Unol Daleithiau. Ond y trwbl yw, mae pawb wedi methu â chrybwyll pam y gwnaeth fy hen, hen ewythr yr hyn a wnaeth. Dyma'r hanes fel yr wyf wedi ei godi hyd yn hyn, ac mi fuaswn yn hynod falch pe byddai un o ddarllenwyr *Y Casglwr* â mwy o fanylion.

Ganwyd David Forest Williams (fy hen, hen ewythr) ar 28 Mai 1846 mewn bwthyn bychan (sydd bellach yn adfail) o'r enw Clynfryn, neu Celynfryn, ym mhlwy Capel Garmon. Mae'r murddun yn gorwedd yr ochr arall i afon Conwy i Betws y Coed, a ger fferm Rhyd y Creua. Ef oedd yr ieuengaf o saith o feibion a phedair merch i Ellis Williams a'i wraig Elizabeth Rawson. Arolygwr ffyrdd plwyf Llanrwst a Sir Ddinbych oedd y tad wrth ei alwedigaeth. Bu hefyd yn gofalu am y briffordd trwy Eryri a Sir Fôn (nawr yr A5), gyda'r contractwr Thomas Telford.

Prin iawn yw fy ngwybodaeth am ei addysg cynnar, ond mae'n debyg fod ei fam yn ddylanwad mawr arno, a'r holl blant eraill o ran hynny. Un peth sy'n sicr, fodd bynnag, yw ei fod yn un o blant y Diwygiad yn 1859. Aeth dau o'i frodyr hŷn, sef Harri Rawson Williams, Hen Golwyn a Llanellidan, ac Ellis Williams, Llanllechid, i'r weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; tri arall sef Thomas, John a William yn flaenoriaid ym Metws y Coed a Chefn Coch, Llangernyw, ac aeth y chweched, Robert Abbey Williams, yn

Giwrad Eglwys Lloegr yn Llandysul, Sir Aberteifi.

Bu David Forest Williams (fy hen, hen ewythr) yn ffodus i gael ei dderbyn i Goleg y Bala, a maes o law, enillodd radd B.A. drwy Goleg Llundain yn 1880. Wedi graddio, ordeiniwyd ef yn weinidog ar Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd Nant Peris. Bu yno am o leiaf ddeng mlynedd ac oddeutu 1890 symudodd ei chwaer hynaf a'i gŵr, Henry Trefor Roberts, a Catherine Jane Roberts, y ferch, o Flaenau Ffestiniog i gadw tŷ iddo yn Nant Peris.

Cyn bo hir, fodd bynnag, mae'n debyg i David Forest Williams syrthio mewn cariad â'i niith a'r canlyniad fu iddynt briodi yn ddistaw, a hynny ganol wythnos, yng Nghapel Moriah, Caernarfon ar 12 Medi




Catherine J. Williams.

1891. Roedd hyn wrth gwrs yn erbyn y gyfraith, a phan dorrodd y stori allan, galwyd ar y Parch. David Forest Williams o flaen y cyfarfod misol, Cylch Arfon, a gynhelid ym Mhwhllheli, (gweler *Y Werin, Y Goleuad* a'r *Drysorfa* 1891 ac amryw o bapurau newydd eraill).

Pasiwyd yn unfrydol, a hynny mewn distawrwydd llethol '*... fod ein brawd David F. Williams ddim i fod yn weinidog mwyach yn ein mysg.*' Ac yntau wedi cael ei wahardd yng Nghymru, y peth cyntaf wnaeth David F. Williams a'i wraig newydd oedd dianc oddi wrth y gyfraith a dal y llong cyntaf yn Lerpwl am yr Unol Daleithiau, gan fod priodi niith yn gyfreithlon yn America, fel y mae heddiw.

Ar ôl cyrraedd yr Amerig, bu'n ffodus i gael ei benodi yn weinidog yn *North Bend, Wis.* Erbyn 1901 symudodd i *Oak Hill, Ohio*, yn athro Prifysgol Providence, lle y bu hefyd yn weinidog yn Eglwys y Presbyteriaid, Horeb, o 1906 hyd 1909. Diweddodd ei oes yn weinidog ar y cylch.

Ac yntau'n gyrru adref gyda'i wraig, ar ôl cyhoeddiad yn ystod mis Hydref 1931, bu mewn gwrthdrawiad â thryc. Cludwyd ef i Ysbyty Houzer, Gallopolis lle bu farw o'i niweidiau fis yn ddiweddarach yn



Eglwys y Presbyteriaid, Horeb, Ohio.

SERMONS

BY THE LATE

Rev. D. Forest Williams, D.D.

OAK HILL, OHIO

PUBLISHED BY
MRS. D. FOREST WILLIAMS
OAK HILL, OHIO

Nhachwedd 1931, yn 85 mlwydd oed. (gweler *Y Drych*, 7 Ionawr 1932).

Cyhoeddodd ei wraig gyfrol o'i waith barddonol, sef *Cyfról o Farddoniaeth* ac un ar ei bregethau *Pregethau Y Parch. David Forest Williams*, yn breifat yn Ohio ar ôl ei farw, a hynny ganol tridegau'r ganrif ddiwethaf. Yr unig gopi dwi wedi dod ar ei draws o'r farddoniaeth yw yr un sydd yn Llyfrgell y Brifysgol, Bangor, ond dwi'n ffodus i fod yn berchen ar gyfrol o'i bregethau. Mae'n amlwg o'i farddoniaeth ei fod yn hiraethu am ei deulu a'i gartref yng Nghymru.



Yn ddiweddar derbynias lythyr o Oak Hill yn datgan fod carreg fedd iddo ef a'i wraig yn dal mewn cyflwr da ym mynwent y Presbyteriaid yno.